# Canllawiau Dylunio ar gyfer Canolfannau Trefi

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Bwriad y canllawiau hyn yw rhoi gwybodaeth i fusnesau sy'n dymuno masnachu yn yr awyr agored ac ystyriaethau allweddol wrth geisio codi strwythurau dros dro neu ddefnyddio celfi stryd.**

**Bwriad y canllawiau hyn yw helpu busnesau Ceredigion i wneud penderfyniadau cytbwys sy'n parchu cymeriad ein trefi ac yn cefnogi adferiad economaidd y Sir.**

## Datblygu

Diffinnir datblygu o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel “the carrying out of building, engineering, mining or other operation in, on, over or under land, or the making of any material change in the use of any building or other land." Fel rheol mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu oni bai ei fod yn gymwys fel datblygu a ganiateir.

Codwyd llawer o strwythurau yng Nghanol ein Trefi sy'n newid defnydd y tir yn aml o balmant neu briffordd i gaffis. Mae rhai strwythurau a godwyd hefyd wedi golygu gweithredoedd i gysylltu strwythurau ag adeiladau sy’n bodoli eisoes neu â thir/priffordd sy'n golygu rhywfaint o barhad sy’n gofyn am ganiatâd cynllunio a thrwyddedau perthnasol eraill.

Er mwyn cefnogi'r economi leol trwy'r pandemig, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi penderfynu peidio â chymryd camau gorfodi cynllunio. Fodd bynnag, mae'r dull hwn o weithredu bellach wedi newid ac rydym yn cynghori masnachwyr i ofyn am gyngor cyn codi strwythurau nad oes ganddynt ganiatâd tybiedig. Yn y cyfamser, gobeithir felly y bydd y cyngor yn y canllawiau hyn yn cynorthwyo busnesau i wneud penderfyniadau ystyriol a chytbwys ynghylch gweithredu strwythurau a chelfi stryd yng nghanol ein trefi.

## Treftadaeth Adeiledig

Mae gan Ganol lawer o Drefi yng Ngheredigion ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae hyn yn wir ym mhob un o'r pedair tref â pharthau diogel. Gellir gweld mapiau sy'n dangos yr ardaloedd Cadwraeth yma: [http://www.ceredigion.gov.uk/media/6225/ceredigion-local-development-plan-ldp-volume-2b-proposals-maps-including-inset-maps-bilingual.pdf](http://www.ceredigion.gov.uk/media/6225/ceredigion-local-development-plan-ldp-volume-2b-proposals-maps-including-inset-maps-bilingual.pdf)

Rhaid i unrhyw ddatblygu mewn ardaloedd cadwraeth barchu eu cymeriad ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb hanesyddol. Mae angen caniatâd ardal gadwraeth ar gyfer rhai mathau o ddatblygu mewn ardaloedd cadwraeth. Mae ardaloedd cadwraeth Aberteifi, Tregaron a Llanddewibrefi hefyd yn ddarostyngedig i Gyfarwyddiadau Erthygl 4 sy'n dileu rhai neu'r holl hawliau datblygu a ganiateir.

Ni ddylai strwythurau rwystro golygfeydd allweddol i mewn ac allan o'r ardal Gadwraeth. Ni ddylid effeithio nac ystumio’n niweidiol barhad a rhythm adeiladau mewn strydlun gan fod hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o hunaniaeth leol ac yn cyfleu arwahanrwydd ardal gadwraeth.

Yn ogystal, mae yna nifer o Adeiladau Rhestredig yng Nghanol ein Trefi. Mae'r rhain yn adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac fe'u rheolir trwy'r drefn caniatâd Adeilad Rhestredig. Mae statws adeilad rhestredig yn cwmpasu'r tu mewn yn ogystal â thu allan yr adeilad, ac unrhyw adeiladau neu strwythurau parhaol o fewn ei gwrtil. Bydd angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith sy'n effeithio ar gymeriad neu olwg Adeilad Rhestredig

Er mwyn cadw a gwella cymeriad canol hanesyddol ein trefi, lle bo hynny'n briodol, dylid ymchwilio i fuddsoddi mewn canopi traddodiadol ar gyfer blaen siop cyn ystyried strwythur annibynnol. Gellir cynllunio canopïau o'r fath yn sensitif fel eu bod yn hawdd eu hamsugno i'r strydlun hanesyddol. Bydd canopïau hefyd yn cefnogi datblygiad tymor hwy diwylliant caffis yn ein trefi. Byddwch yn ymwybodol y bydd angen caniatâd Cyngor Sir Ceredigion / Asiantaeth Cefnffyrdd (Awdurdod Priffyrdd Lleol) ar unrhyw beth a godir dros briffordd gyhoeddus.

Dylai pebyll mawr a strwythurau neu gelfi stryd eraill sy'n gysylltiedig â masnachu awyr agored gael eu lleoli'n ofalus er mwyn lleihau eu heffaith weledol ar yr ardal Gadwraeth ac osgoi unrhyw ddifrod i strwythur neu ddeunyddiau Adeiladau Rhestredig. Dylid parchu lleoliad adeiladau nodedig trwy gadw agoredrwydd o'u cwmpas ac osgoi strwythurau neu gelfi sy'n tynnu oddi ar olwg esthetig yr adeilad.

## Maint, Graddfa ac Ymgasglu

Dylai strwythurau barchu'r safle a'r ardal o'i amgylch. Mae llawer o strwythurau tebyg i bebyll mawr ar raddfa fawr ac yn ysgubo dros yr adeiladau sy'n gartref i'r busnesau y maent yn eu defnyddio. Gall effaith gronnol nifer o bebyll mawr ar y strydlun hefyd fod yn niweidiol i gymeriad yr ardal.

## Lleoliad, Cynllun a Chyfeiriadaeth

Dylid dewis lleoliad strwythurau o fewn y strydlun yn ofalus. Yn ddelfrydol ni ddylai strwythurau rwystro ffasâd adeiladau gan fod hyn yn cyfyngu ar nifer y ffryntiadau gweithredol. Lle bo hynny'n bosibl ac yn fwyaf priodol, dylid lleoli strwythurau ar ochr neu y tu ôl i'r adeiladau sy'n gartref i’r busnesau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae cyfeiriadaeth strwythurau hefyd yn bwysig. Lle bo modd, dylai cyfeiriadaeth goleddf to adlewyrchu cyfeiriadaeth y strydlun. Dylai pwyntiau mynediad osgoi ardaloedd symudiadau uchel cerddwyr sy’n pasio i ganiatáu i ddefnyddwyr fynd i mewn a gadael yn drefnus heb rwystro llif symudiadau cerddwyr na systemau ciwio diffiniedig. Rhaid i'r cynllun mewnol hwyluso'r gofynion cadw pellter cymdeithasol.

# Canllawiau Dylunio ar gyfer Canolfannau Trefi

## Celfi Stryd

O ran celfi stryd fel seddi, byrddau, sgriniau ac arwyddion, dylai'r lleoliad a'r lliw barchu cymeriad yr ardal a bod yn ddigon i wrthsefyll y tywydd a brofir ar hyd morlin Ceredigion yn ystod y prif dymor twristiaeth. Anogir defnyddio deunyddiau ailgylchadwy. Dylid trefnu celfi bwyta awyr agored mewn patrwm trefnus, gyda digon o le a dylai barchu'r mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith ar y pryd. Ni ddylai effaith gronnol celfi stryd greu effaith anniben yn y strydlun.

Dylai masnachwyr fod yn ymwybodol bod bwyta awyr agored yn cael ei reoli gan drefn Trwyddedu Caffis Stryd. Hefyd, nid yw'r canllaw hwn yn ymdrin yn fanwl â rheolaeth hysbysebion gan gynnwys goleuadau cysylltiedig, ond mae'n debygol y bydd angen Caniatâd Hysbysebu ar faneri.

Dylai busnesau gofio bod angen arolygu a chynnal a chadw priffyrdd fel mater o drefn ac mewn sefyllfaoedd argyfwng. Gall hyn fod ar fyr rybudd a gallai olygu cael gwared ar strwythurau. Gorau po fwyaf dros dro ei natur yw'r strwythur yno.

Mae'r awdurdod yn dymuno parhau i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnod heriol hwn ac ni fydd yn cymryd camau gorfodi yn ddifeddwl, fodd bynnag, pan fydd masnachwyr wedi codi strwythurau sydd angen caniatâd, bydd camau gorfodi yn cael eu hystyried.

## Hygyrchedd

Ni ddylid lleoli strwythurau a chelfi stryd mewn ffyrdd sy'n cael effaith niweidiol ar ddarllenadwyedd y strydlun neu hygyrchedd tir y cyhoedd. Mae palmentydd clir a chroesfannau yn bwysig er diogelwch pob cerddwr gan gynnwys defnyddwyr anabl a'r rheini sydd â nam ar eu golwg. Dylai priffyrdd cyhoeddus fod yn rhydd o rwystrau a hwyluso llif diogel a rhydd cerddwyr. Dylai strwythurau a chelfi hefyd ystyried diogelwch ar y ffyrdd ac osgoi blaenwelededd llai i ddefnyddwyr eraill y ffordd, er enghraifft wrth gyffyrdd.

Dylai pob defnyddiwr stryd allu cael mynediad i ganol y dref ac mae strydoedd anniben gyda chelfi a fframiau A yn gwneud hyn yn anodd iawn i rai pobl. Wrth leoli eitemau ar y briffordd, sicrhewch nad yw mynediad yn cael ei rwystro ar gyfer unrhyw grwpiau ac y gall defnyddwyr stryd gael mynediad at ymylon isel palmentydd a phwyntiau mynediad naturiol eraill yn ddiogel.

## Datblygu a Ganiateir

Caniatâd i gyflawni rhai mathau cyfyngedig o ddatblygu heb yr angen i wneud cais i awdurdod cynllunio lleol, fel y'i rhoddir o dan delerau'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir). Mae canllawiau pellach ar gael yma: https://www.planningportal.co.uk/wales_cy/info/4/your_responsibilities/47/caniat%C3%A2d_cynllunio.

Fodd bynnag, efallai y bydd angen cais i'r Cyngor/Asiantaeth Cefnffyrdd (Awdurdod Priffyrdd Lleol) o hyd.

## Ystyriaethau Eraill

Dylai busnesau ystyried natur dymhorol y farchnad y maent yn darparu ar ei chyfer. Bydd darparu cysgod ar wahanol adegau o'r flwyddyn yn helpu i wella profiad yr ymwelydd.

Dylid ystyried effaith cynigion ar lifogydd a draenio yn yr ardal leol yn ogystal â'r potensial am ddifrod a achosir gan ddigwyddiadau tywydd garw.

## Polisi a Chanllawiau

Dylid ystyried cynigion datblygu yn erbyn polisi cenedlaethol ar ddylunio da ac egwyddorion creu lleoedd. Penderfynir ar geisiadau yn unol â Chynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol Ceredigion 2007-2022 sydd ar gael yn: http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/cynllun-datblygu-lleol/cdl-fabwysiadwyd/

I gael cyngor a chanllawiau pellach ar gynigion blaen siop, gweler Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Canllaw Dylunio Blaen Siop Aberystwyth. http://www.ceredigion.gov.uk/media/6303/aberystwyth-shopfront-and-commercial-fa-ade-design-guide-spg-english.pdf. Offeryn defnyddiol i lywio'ch cynigion yw'r broses Asesu Effaith Treftadaeth. Mae canllawiau pellach ar gael yma: https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Heritage%20Impact%20Assessment%20in%20Wales%20CY.pdf

## Cysylltiadau Defnyddiol

I drafod eich syniadau/cynigion, cysylltwch â Chydlynydd eich Tref. Byddant yn cynnwys y meysydd gwasanaeth perthnasol ar gyfer trafodaeth anffurfiol ynghylch materion gan gynnwys Cynllunio, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, Hysbysebion, Trwyddedu Caffis Stryd a Grantiau. Anogir yr holl gyfathrebu â'r Cyngor trwy'r system Clic. Cysylltwch â ni -

Ffôn:01545 570881

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Efallai y bydd grantiau ar gael trwy'r Rhaglen Trawsnewid Trefi yn Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul a Thregaron.

## Dolenni Defnyddiol

https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents

https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/contents/enacted

https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1980/66

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-11.pdf

https://llyw.cymru/caniatad-cynllunio-dosbarthiadau-defnydd-newid-defnydd

https://llyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol

http://www.ceredigion.gov.uk/media/6269/the-built-environment-and-design-spg-eng.pdf